Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gymraeg Bro Allta
Central Street
Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7XQ

22/05/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Ebrill 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gymraeg Bro Allta yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol, ynghyd ag un agwedd a gytunwyd gyda'r pennaeth. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Datblygu medrau darllen disgyblion

- Trwy gynllunio priodol, dysgu proffesiynol perthnasol a gweithgareddau monitro effeithiol, mae arweinwyr yn datblygu ymagwedd gyson at addysgu medrau darllen disgyblion.
- Mae staff yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol, gan gynnwys cydweithio'n llwyddiannus ag ysgolion eraill i rannu arfer effeithiol, ac i ddatblygu a mireinio'u dulliau o addysgu darllen. Mae hyn, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau darllen disgyblion.
- Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd dyddiol pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen, gan gynnwys medrau darllen uwch, yn llwyddiannus. Trwy hyn, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o ystod o strategaethau darllen ac yn eu defnyddio i ddatgymalu ac adeiladu geiriau anghyfarwydd, i ddadansoddi ac i grynhoi testunau y maent yn eu darllen.
- Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu dealltwriaeth lwyddiannus o seiniau llythrennau ac yn cymhwyso'r wybodaeth hon yn fedrus i ddarllen ac ysgrifennu

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

geiriau syml. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, maent yn dechrau adeiladu ar hyn yn briodol i sillafu geiriau anghyfarwydd ac i ysgrifennu gyda hyder cynyddol.
- Mae'r disgyblion hŷn yn datblygu medrau darllen gyda rhuglder cynyddol yn Gymraeg a Saesneg. Mae ganddynt ymwybyddiaeth drylwyr o awduron a llenyddiaeth Gymreig ac maent yn trafod testunau ffuglen a ffeithiol yn wybodus. Maent yn cywain gwybodaeth yn effeithiol, ac yn trafod teimladau a bwriadau cymeriadau gyda deallusrwydd aeddfed.
- Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol â rhieni ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion, gan gynnwys rhannu disgwyliadau am ddysgu'r disgyblion ac adnoddau er mwyn iddynt gefnogi eu plant adref.

## Sicrhau bod gan bob un o'r athrawon ddisgwyliadau uchel a chytûn i i gefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau ysgrifennu estynedig i safon gyson

- Mae arweinwyr yn cydweithio'n fwriadus i ddatblygu'r agwedd hon. Mae ganddynt weledigaeth glir sydd wedi ei rhannu â disgyblion, staff a rhieni'n llwyddiannus.
- Maent yn trefnu ystod eang o weithgareddau dysgu proffesiynol buddiol sydd, yn eu tro yn datblygu gallu a hyder athrawon i ddarparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ar draws y meysydd dysgu. Maent yn cynnwys cyfleoedd i rannu arferion effeithiol gydag ysgolion lleol ac arsylwi ar sesiynau dysgu o fewn yr ysgol.
- Yn gyffredinol, mae athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus ac yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn effeithiol.
- Mae'r ddarpariaeth yn cefnogi'r disgyblion ieuengaf i gaffael medrau ysgrifennu cynnar yn bwrpasol; er enghraifft, maent yn arbrofi gyda gwneud marciau gan ddefnyddio ystod o gyfryngau priodol ac yn datblygu medrau modur mân sy'n cefnogi eu medrau'n llwyddiannus. Maent yn adeiladu ar y medrau hyn yn gyson ac, erbyn Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu'n hyderus ar draws ystod o gyd-destunau priodol.
- Mae'r disgyblion hynaf yn ysgrifennu'n hyderus ar draws ystod dda o ffurfiau. Maent yn gwneud dewisiadau geirfa dychmygus ac yn ystyried cynulleidfa'n bwrpasol wrth lunio testun.
- Ar y cyfan, mae staff yn defnyddio ystod dda o ddulliau holi treiddgar sy'n cefnogi'r dysgu yn fwriadus. Maent yn adalw dysgu blaenorol yn gyson ac yn annog disgyblion i ystyried a dehongli cynnwys testunau yn fedrus er mwyn cefnogi eu medrau ysgrifennu estynedig.
- Mae disgyblion yn defnyddio adnoddau fel 'Y Wal Wella' i gefnogi eu hysgrifennu estynedig gydag annibyniaeth gynyddol; er enghraifft, maent yn dewis rhagymadroddion sydd wedi eu harddangos er mwyn cyfoethogi'r testun.

- Dros amser, mae addysgu effeithiol yn cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6762368

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol